

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog  
Questions to the First Minister
  
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
  
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau  
Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks
  
- 7 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes  
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Hyrwyddo Byw'n Iach Ymhlith Pobl Hŷn The Promotion of Healthy Living Among Older People

**Q12 David Melding:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy to promote healthy living among older people? OAQ1489(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The Welsh Assembly Government is proud of its work for older people. As part of our 10-year strategy, we published our healthy ageing action plan last year. This outlines plans for action on physical activity, healthy eating, emotional health, smoking, alcohol, sexual health, and health protection and safety promotion.

**C12 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo byw'n iach ymhlith pobl hŷn? OAQ1489(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymfalchïo yn y gwaith y mae'n ei wneud ar gyfer pobl hŷn. Fel rhan o'n strategaeth 10 mlynedd, cyhoeddwyd ein cynllun gweithredu ar gyfer heneiddio'n iach y llynedd. Mae hwn yn amlinellu cynlluniau gweithredu o ran gweithgarwch corfforol, bwyta'n iach, iechyd emosiynol, ysmegu, alcohol, iechyd rhyw a diogelu iechyd a hyrwyddo diogelwch.

#### Cynigion i Adeiladu Morglawdd ar draws Afon Hafren Proposals to Build a Barrage across the River Severn

**Q13 Rosemary Butler:** What discussions has the Welsh Assembly Government had regarding proposals to build a barrage across the River Severn? OAQ1479(FM)

**C13 Rosemary Butler:** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal ynglŷn â chynigion i adeiladu morglawdd ar draws Afon Hafren? OAQ1479(FM)

**The First Minister:** Ministers have received a presentation from the Severn Tidal Power Group on the potential impact of a barrage, and MEIN has met with members of the South West Regional Assembly. Both meetings concluded that further work should be carried out on the social, economic and environmental consequences of constructing a barrage.

**Y Prif Weinidog:** Mae Gweinidogion wedi clywed cyflwyniad gan Severn Tidal Power Group ar effaith bosibl cael morglawdd ac mae'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi cyfarfod ag Aelodau Cynulliad Rhanbarthol De Orllewin Lloegr. Daeth y ddau gyfarfod i'r casgliad y dylid gwneud mwy o waith ar ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol creu morglawdd.

### **Dyfodol Gwasanaethau Swyddfeydd Post yng Nghymru The Future of Post Office Services in Wales**

**Q14 Jocelyn Davies:** What discussions has the Welsh Assembly Government had on the future of post office services in Wales? OAQ1470(FM)

**C14 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal ynglŷn â dyfodol gwasanaethau swyddfeydd post yng Nghymru? OAQ1470(FM)

**The First Minister:** Post office and postal services are non-devolved responsibilities. Ministers and officials meet regularly with counterparts in other Government administrations and contacts in Royal Mail and Post Office Limited to discuss a range of issues, including the future of post office services in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae gwasanaethau post a swyddfeydd post yn gyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli. Mae Gweinidogion a swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â'u cymheiriaid yng ngweinyddiaethau eraill y Llywodraeth a chysylltiadau yn y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post Cyf i drafod amrywiaeth o faterion, yn cynnwys dyfodol gwasanaethau swyddfeydd post yng Nghymru

### **Polisiau ar gyfer Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru Policies for Improving Public Services in Wales**

**Q15 Nick Bourne:** Will the First Minister make a statement on his policies for improving public services in Wales? OAQ1498(FM)

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisiau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ1498(FM)

**The First Minister:** Our vision for high-quality, responsive public services was set out in 'Making the Connections', published last June, and is supported by providing some £3.5 billion of Assembly Government support in revenue support grant/non-domestic rates to local authorities for 2006-07, which is an increase of 5.1 per cent on 2005-06.

**Y Prif Weinidog:** Nodwyd ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus atebol o ansawdd da yn 'Creu'r Cysylltiadau', a gyhoeddwyd fis Mehefin diwethaf, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gefnogi drwy ddarparu tua £3.5 biliwn mewn grant cynnal refeniw/ardrethi annomestig i awdurdodau lleol ar gyfer 2006-07, sef cynnydd o 5.1 y cant o'i gymharu â 2005-06.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**  
**Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration**

**Dileu Tlodi Tanwydd**  
**Eradicating Fuel Poverty**

**Q13 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on progress towards Welsh Assembly Governments targets to eradicate fuel poverty among vulnerable households by 2010? OAQ0661(SJR)

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** We estimate that in 2005 there were 166,000 households in Wales in fuel poverty, of which 143,000 were vulnerable. This represents progress on the 1998 figure, when 360,000 households were in fuel poverty, of which 313,000 were vulnerable. Our home energy efficiency scheme has assisted over 60,000 vulnerable households since 2000.

**C13 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dileu tlodi tanwydd ymhlith aelwydydd agored i niwed erbyn 2010? OAQ0661(SJR)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr ydym yn amcangyfrif bod tua 166,000 o aelwydydd yng Nghymru wedi dioddef o dlodi tanwydd yn 2005 ac yr oedd 143,000 o'r rheini yn agored i niwed. Mae hyn yn dangos cynnydd ar ffigur 1998 pan oedd 360,000 o aelwydydd yn dioddef o dlodi tanwydd, gyda 313,000 o'r rheini yn agored i niwed. Mae ein cynllun effeithiolrwydd ynni cartref wedi helpu dros 60,000 o aelwydydd agored i niwed ers 2000.

**Amseroedd Aros ar gyfer Adsefydlu Pobl a fu'n Camddefnyddio Sylweddau**  
**Waiting times for Rehabilitation for Substance Misuse**

**Q14 Peter Black:** Will the Minister make a statement on waiting times for rehabilitation for substance misuse? OAQ0644(SJR)

**Edwina Hart:** We have made a substantial investment in substance misuse over recent years to improve access to, and to reduce the waiting times for, all forms of substance misuse treatment, including rehabilitation where this is determined a local priority.

**C14 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer adsefydlu pobl a fu'n camddefnyddio sylweddau? OAQ0644(SJR)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn camddefnyddio sylweddau dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn gwella mynediad pobl sy'n camddefnyddio sylweddau at bob math o driniaethau ac er mwyn lleihau'r amseroedd aros ar gyfer triniaeth, sy'n cynnwys adsefydlu lle y gwelir hyn fel blaenoriaeth yn lleol.

**Unedau Adsefydlu i Gyffuriau yng Nghanol De Cymru**  
**Drug Rehabilitation Units in South Wales Central**

**Q15 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on drug rehabilitation units in South Wales Central? OAQ0653(SJR)

**Edwina Hart:** Drug rehabilitation services are commissioned by community safety partnerships at a local level according to local needs and priorities. There are 67 places for

**C15 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unedau adsefydlu ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau yng Nghanol De Cymru? OAQ0653(SJR)

**Edwina Hart:** Mae gwasanaethau adsefydlu ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau yn cael eu comisiynu gan bartneriaethau diogelwch cymunedol yn lleol, yn ôl anghenion a

residential rehabilitation and 13 places for in-patient detoxification in the South Wales Central area.

blaenoriaethau lleol. Mae 67 o leoedd ar gyfer adsefydlu cleifion mewn cyfleusterau preswyl a 13 o leoedd ar gyfer dadwenwyno cleifion mewn ysbyty yn ardal canol De Cymru.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks**

### **Hyrwyddo Entrepreneuriaeth The Promotion of Entrepreneurship**

**Q7 Jenny Randerson:** What action is the Welsh Assembly Government taking to promote entrepreneurship in Wales? OAQ0774(EIN)

**C7 Jenny Randerson:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo entrepreneuriaeth yng Nghymru? OAQ0774(EIN)

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** Entrepreneurship and innovation are central to developing a stronger economy, hence my new department's title. This is bringing together policy and delivery, to focus resources on making the maximum impact. We continue to support programmes designed to encourage entrepreneurship and those providing advice to any existing and aspiring entrepreneurs.

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae entrepreneuriaeth ac arloesi yn ganolog i ddatblygu economi gryfach a dyma'r rheswm dros deitl fy adran newydd. Mae'n ymwneud â llunio a gweithredu polisiau, er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Yr ydym yn parhau i gefnogi rhaglenni a gynlluniwyd er mwyn annog entrepreneuriaeth a rhaglenni sy'n rhoi cyngor i bobl sy'n awyddus i ddod yn entrepreneuriaid neu i rai sy'n bodoli eisoes.

*Tynnwyd cwestiwn 8, OAQ0808(EIN), yn ôl.  
Question 8, OAQ0808(EIN), was withdrawn.*

### **Llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol The Success of the Community Transport Initiative**

**Q9 Gwenda Thomas:** Will the Minister make a statement on the success of the community transport initiative in Wales? OAQ0817(EIN)

**C9 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant y cynllun trafndiaeth gymunedol yng Nghymru? OAQ0817(EIN)

**Andrew Davies:** Between 2005 and 2008, 15 projects sharing £3 million are testing ways to improve accessibility for severely disabled people on community transport. They include Dulais Valley Community Transport, Neath Port Talbot community transport and Neath Port Talbot Council for Voluntary Service. The Community Transport Association is managing and evaluating the scheme.

**Andrew Davies:** Rhwng 2005 a 2008, bydd 15 o brosiectau sy'n rhannu £3 miliwn, yn profi ffyrdd o wella hygyrchedd ar gyfer pobl ag anableddau difrifol o ran trafndiaeth gymunedol. Maent yn cynnwys Trafnidiaeth Gymunedol Cwm Dulais, trafndiaeth gymunedol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yn rheoli ac yn gwerthuso'r cynllun.

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ0798(EIN), yn ôl.*

*Question 10, OAQ0798(EIN) was withdrawn.*

### **Economi Canol De Cymru The Economy of South Wales Central**

**Q11 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement on the economy of South Wales Central? OAQ0807(EIN)

**Andrew Davies:** Employment levels have risen and economic inactivity levels have fallen in South Wales Central. Our vision for the Welsh economy, as set out in 'Wales: A Vibrant Economy', will continue to build on progress made to date.

**C11 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am economi Canol De Cymru? OAQ0807(EIN)

**Andrew Davies:** Mae lefelau cyflogaeth wedi codi a lefelau anweithgarwch economaidd wedi gostwng yng Nghanol De Cymru. Bydd ein gweledigaeth ar gyfer yr economi yng Nghymru, fel y nodwyd yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu', yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

### **Gŵyl Crow Point The Crow Point Festival**

**Q12 Rosemary Butler:** Will the Minister make a statement on how the Crow Point Festival, a celebration of the centenary of the Newport transporter bridge, can help to promote tourism in Newport? OAQ0813(EIN)

**Andrew Davies:** I am sure that this three-day festival, held between 15 and 17 September in Coronation park, will attract a wide range of visitors. It hopes to attract around 10,000 visitors to enjoy and celebrate part of the city's history and the industrial and engineering heritage of the area. Events-based tourism is a key element in the tourism strategy for south-east Wales.

**C12 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall Gŵyl Crow Point, sy'n dathlu canmlwyddiant pont gludo Casnewydd, helpu i hyrwyddo twristiaeth yng Nghasnewydd? OAQ0813(EIN)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn siŵr y bydd yr ŵyl tri diwrnod hon, a gynhelir rhwng 15 ac 17 Medi ym mharc Coronation, yn denu amrywiaeth eang o ymwelwyr. Mae'n gobeithio denu tua 10,000 o ymwelwyr i fwynhau a dathlu rhan o hanes y ddinas a threftadaeth ddiwydiannol a pheirianyddol yr ardal. Mae twristiaeth sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau yn elfen allweddol o strategaeth dwristiaeth de-ddwyrain Cymru.

### **Swyddi Gweithgynhyrchu (Alun a Glannau Dyfrdwy) Manufacturing Jobs (Alyn and Deeside)**

**Q13 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for manufacturing jobs in Alyn and Deeside? OAQ0770(EIN)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government provides a range of programmes and initiatives to deliver economic growth which encompass support for the manufacturing sector, both to sustain existing manufacturing and encourage new investment. An example includes recent support in Flintshire of a multimillion pound

**C13 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i swyddi gweithgynhyrchu yn Alun a Glannau Dyfrdwy? OAQ0770(EIN)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu amrywiaeth o raglenni a mentrau i gyflawni twf economaidd sy'n cynnwys cefnogaeth i'r sector gweithgynhyrchu, er mwyn cynnal y diwydiant gweithgynhyrchu presennol ac er mwyn annog buddsoddiadau newydd. Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth a roddwyd

management buy-out that safeguarded 90 jobs in the sector.

i reolwyr brynu safle gwerth miliynau o bunnoedd yn ddiweddar yn sir y Fflint, a ddiogelodd 90 o swyddi yn y sector.

### **Busnesau Bach yng Ngheredigion Small Businesses in Ceredigion**

**C14 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fusnesau bach yng Ngheredigion? OAQ0795(EIN) [W]

**Q14 Elin Jones:** Will the Minister make a statement on small businesses in Ceredigion? OAQ0795(EIN) [W]

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy gymryd nifer o gamau gwahanol, yn cynnig cymorth i bobl sydd am sefydlu busnes bach ac i'r rheini sy'n masnachu yng Ngheredigion yn barod. Mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu ar ffurf: gwybodaeth gyffredinol am fusnesau, sydd ar gael drwy Lygad Busnes; cyngor cyn sefydlu busnes; cyngor ar ôl sefydlu busnes er mwyn datblygu/cynnal busnesau sefydledig; a chymorth i ariannu ymgynghorwyr arbenigol sy'n rhoi help llaw i fusnesau fanteisio ar gyfleoedd a/neu heriau penodol. Yr ydym hefyd yn rhoi cymorth i fusnesau fanteisio i'r eithaf ar TGCh, sy'n gwbl hanfodol yn y farchnad sydd ohoni.

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government, through a number of interventions, provides support to persons wanting to establish a small enterprise and those already trading in Ceredigion. The support takes the form of: generic business information available through Business Eye; pre-start advisory support; post-start advice for the growth/sustaining of established businesses; and part-funded specialist consultants support to assist with particular opportunity and/or challenge. We also actively support the embracing of ICT, which is vital in today's marketplace.

### **Defnyddio Ynni yn Effeithiol The Efficient Use of Energy**

**Q15 Mick Bates:** What action is the Welsh Assembly Government taking to encourage businesses to become more energy efficient? OAQ0780(EIN)

**C15 Mick Bates:** Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog busnesau i ddefnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithiol? OAQ0780(EIN)

**Andrew Davies:** Carbon Trust Wales provides a range of services to promote and encourage the adoption of energy efficiency. The Welsh Assembly Government's Energy Saving Wales portal helps direct businesses to additional avenues of advice, and we are looking to link strong messages on energy efficiency with our proposals on microgeneration.

**Andrew Davies:** Mae Ymddiriedolaeth Garbon Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i hyrwyddo dulliau o ddefnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithiol ac annog pobl i'w mabwysiadu. Mae cynllun Arbed Ynni Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu i gyfeirio busnesau at ffynonellau ychwanegol o gyngor, ac yr ydym yn bwriadu creu negeseuon cryf o ran defnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithiol gyda'n cynigion o ran microgynhyrchu.

**Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes**  
**Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for**  
**Business**

**Ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gyfle Cyfartal**  
**The Welsh Assembly Government's Commitment to Equal Opportunities**

**Q7 Lisa Francis:** Would the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's commitment to equal opportunities? OAQ0221(BM)

**C7 Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfle cyfartal? OAQ0221(BM)

**The Business Minister (Jane Hutt):** The Welsh Assembly Government is committed to delivering equal opportunities through mainstreaming. We have a unique statutory duty under section 120 of the Government of Wales Act 1998 to ensure that equality of opportunity is embedded in our work.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal trwy brif ffrydio. Mae gennym ddyletswydd statudol unigryw o dan adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei gynnwys yn ein gwaith.

*Atebwyd cwestiynau 8 i 10, OAQ0222(BM), OAQ0215(BM), OAQ0214(BM), yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ0217(BM), yn ôl. Atebwyd cwestiwn 12, OAQ0216(BM), yn y Cyfarfod Llawn.*

*Questions 8 to 10, OAQ0222(BM), OAQ0215(BM), OAQ0214(BM), were answered in Plenary. Question 11, OAQ0217(BM), was withdrawn. Question 12, OAQ0216(BM), was answered in Plenary.*

**Cyfle Cyfartal i Blant**  
**Equal Opportunities for Children**

**Q13 Lisa Francis:** Would the Minister make a statement on equal opportunities for children? OAQ0220(BM)

**C13 Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfle cyfartal i blant? OAQ0220(BM)

**Jane Hutt:** Children are central to the Assembly Government's overall commitment to equal opportunities, as reflected in our work on implementing the United Nations Convention on the Rights of the Child. This includes our support for the principle of participation that includes all children and young people.

**Jane Hutt:** Mae plant yn ganolog i ymrwymiad cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad i gyfle cyfartal, fel yr adlewyrchir yn ein gwaith o ran gweithredu Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn cynnwys ein cefnogaeth i'r egwyddor o gymryd rhan, sy'n cynnwys pob plentyn a pherson ifanc.

*Atebwyd cwestiwn 14, OAQ0223(BM), yn y Cyfarfod Llawn. Question 14, OAQ0223(BM), was answered in Plenary.*